

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**  
Children, Young People and Education Committee

Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth  
Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg  
Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

15 Tachwedd 2019

Annwyl Weinidogion

### **Adolygiad o Deithio gan Ddysgwyr Ôl-16**

Trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg eich **datganiad ar y cyd** ar yr adolygiad arfaethedig o deithio gan ddysgwyr ôl-16 (13 Tachwedd) yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd.

Yng ngoleuni nifer o faterion yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr a godwyd gyda ni fel aelodau pwyllgor, rydym yn bwriadu cynnal gwaith craffu ar ôl ddeddfu ar y Mesur Teithio gan Ddysgwyr cyn diwedd y Cynulliad hwn. Rydym yn falch, felly, o glywed am eich bwriad i adolygu trefniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 a byddwn yn tynnu ar gasgliadau'r adolygiad hwnnw fel rhan o'n gwaith ni.


Serch hynny, nid yw'r pryderon a godwyd gyda ni yn gyfyngedig i ddysgwyr ôl-16. Nodwn fod eich datganiad yn cyfeirio at yr ymrwymiad i adolygu'r canllawiau ar deithio gan ddysgwyr (2014) ac i ymgynghori yn eu cylch, ond ni fyddwch yn gwneud hynny nes y bydd canfyddiadau'r adolygiad yn glir. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro pa ystyriaeth yr ydych yn bwriadu ei rhoi (a phryd) i bryderon ehangach ynghylch teithio gan ddysgwyr, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i hynny):

- trefniadau teithio i ysgolion Cymraeg ac ysgolion ffydd ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol;
- trefniadau teithio i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ni waeth beth fo'u hoedran (yng ngoleuni'r ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018);
- beth yw "llwybr diogel i'r ysgol".



Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg o ystyried perthnasedd y materion hyn i'w meysydd cyfrifoldeb a'u gwaith parhaus. Rydw i hefyd yn ymwybodol ein bod ni wedi ysgrifennu ar 12 Tachwedd i ofyn am fanylion pellach am yr amserlen ar gyfer adolygu'r canllawiau ar deithio gan ddysgwyr – croeso i chi anfon un ymateb i'r ddau lythyr.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AC**  
**Cadeirydd**

Cc Comisiynydd Plant Cymru; Comisiynydd y Gymraeg

